# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2433A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd gyfrannu at astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r ddogfen hon, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys

O ganlyniad i setliadau cyllideb gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor bellach mewn gwell sefyllfa i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr, ond mae heriau'n parhau dros y tymor canolig.


Yr hyn yr edrychwyd arno a pham 4

Cynnig ar gyfer gwella 5

O ganlyniad i setliadau cyllideb gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor bellach mewn gwell sefyllfa i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr, ond mae heriau'n parhau dros y tymor canolig 6

Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi helpu gydag effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor 6

Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig o hyd sydd wedi'i ddatblygu'n dda, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cynyddol adolygu ei strategaeth yn rheolaidd wrth iddo reoli'r adferiad yn dilyn pandemig COVID 7

Er bod lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu yn 2020-21, mae'n cydnabod pwysigrwydd defnyddio cronfeydd wrth gefn yn strategol er mwyn bod mewn sefyllfa fwy cadarn yn ariannol yn y tymor canolig 9

Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn dal i berfformio'n gryf yn erbyn y gyllideb, ac mae'n cyflwyno rhaglen sydd wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â'r pwysau ar ei gyllideb gwasanaethau plant 11

I sicrhau y bydd yn dal mewn sefyllfa gadarn yn ariannol dros y tymor canolig, dylai'r Cyngor ystyried sut gall arbedion gyfrannu'n strategol at leihau ei fwlch cyllid a amcangyfrifwyd 13

Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor wedi parhau'n gryf ar y cyfan dros y pum mlynedd diwethaf 14

# Yr hyn yr edrychwyd arno a pham

1 Cynhaliwyd yr asesiad hwn gan fod cynaliadwyedd ariannol yn dal yn risg wrth i gynghorau wneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd yr asesiad hwn ei lunio ar sail profiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am sefyllfa ariannol cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o lai o adnoddau i lywodraeth leol ynghyd â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau. Cynhaliwyd prosiect tebyg gennym yn 2019-20[1], cyn pandemig COVID-19.

2 Roedd dau gam i'n hasesiad 2020-21 ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Yng Ngham 1 edrychwyd ar: y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau chwarter 2 ar gyfer 2020-21. Yn dilyn Cam 1, roeddem wedi cyhoeddi adroddiad cryno cenedlaethol ym mis Hydref 2020 – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[2] Gwelsom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond mae cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwys ar gyllid y sector cyhoeddus yn gyffredinol ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Mae'r adroddiad cryno yn gosod llinell sylfaen lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol, a maint yr her ddisgwyliedig wrth symud ymlaen.

4 Mae'r adroddiad hwn yn dirwyn i ben gam 2 o'n gwaith asesu cynaliadwyedd yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn paratoi adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru.

5 Cynhaliwyd yr asesiad hwn rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Ebrill 2020

[2] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Cynnig ar gyfer gwella

**Ffigur 1: cynnig ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnig ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynnig ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| **Pennawd cynnig ar gyfer gwella** | |
| C1 | Er mwyn pontio'r bwlch cyllid a amcangyfrifwyd a chyfrannu at gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol, dylai'r Cyngor;<br>• ddatblygu a darparu rhaglen o arbedion cynaliadwy wedi'u cynllunio dros y tymor canolig, gan gynnwys y manteision ariannol sy'n deillio o gyflawni ei raglen drawsnewid T22. |

# O ganlyniad i setliadau cyllideb gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor bellach mewn gwell sefyllfa i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr, ond mae heriau'n parhau dros y tymor canolig

## Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi helpu gydag effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor

7 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor, ac i ba raddau y mae hyn wedi'i liniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

### Canfuwyd

8 Yn ystod 2020-21, roedd y Cyngor wedi monitro ac adrodd yn rheolaidd ar ei gyllidebau refeniw a chyfalaf, gan gynnwys y costau ychwanegol a'r incwm a gollwyd o ganlyniad i'r pandemig, fel y nodir yn **Ffigur 2** isod. Hefyd, gwnaeth y Cyngor benderfyniadau allweddol wrth ailgyfeirio adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.

9 Fel sail i'w gynlluniau ariannol, datblygodd y Cyngor amcangyfrifon cychwynnol o'r costau ychwanegol posibl a'r incwm a allai gael ei golli ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 – er enghraifft, trefniadau glanhau mwy dwys mewn ysgolion, ac incwm a gollir yn sgil prydau ysgol.

10 Yn ei bapur cyllideb ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, dywedodd y Cyngor[3] ei bod yn rhy gynnar i roi rhagolygon synhwyrol o effaith tymor canolig y pandemig ar ei sefyllfa ariannol.

11 Ond, dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym ni y bydd effeithiau'r pandemig ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael eu monitro'n agos drwy ei systemau adrodd cadarn presennol ac, o ganlyniad, yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau ariannol tymor canolig yn y dyfodol.

12 Yn sgil effaith bosibl COVID-19 ar breswylwyr roedd y Cyngor, fel rhan o'r gyllideb ar gyfer 2021-22, wedi addasu cyfradd gasglu dybiedig y Dreth Gyngor wrth bennu ei sylfaen drethu, a bydd hefyd yn adolygu ei bolisi taliadau a ffioedd.

[3] Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyllideb 2021/22 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, 4 Mawrth 2021

**Ffigur 2: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21 (amcangyfrif y Cyngor ym mis Ebrill 2021]**

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o wariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm y bydd wedi'i golli yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19, a faint o hyn gafodd ei liniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £11.6 miliwn |
| Yr incwm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £3.5 miliwn |
| Y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £14.7 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21 ar ôl i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru gael ei ystyried. | £0.4 miliwn |

# Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig o hyd sydd wedi'i ddatblygu'n dda, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cynyddol adolygu ei strategaeth yn rheolaidd wrth iddo reoli'r adferiad yn dilyn pandemig COVID

## Pam mae cynllunio ariannol strategol

13 Mae strategaeth ariannol glir a chadarn yn bwysig er mwyn nodi lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â'r lefel ddisgwyliedig o alw am wasanaethau a'r gost o'u darparu. O ystyried y pwysau ariannol diweddar a disgwyliedig sy'n wynebu pob cyngor, mae hefyd yn bwysig nodi sut mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut bydd yn bodloni'r bylchau cyllid a ragwelir.

## Canfuwyd

14 Yn ein hadroddiad Cynaliadwyedd Ariannol ar gyfer 2019-20, gwelsom fod gwell setliad gan Lywodraeth Cymru wedi lleddfu'r her i'r Cyngor o osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2020-21. Gwelsom hefyd fod strategaeth ariannol y Cyngor at y dyfodol yn dibynnu'n sylweddol, ond nid yn llwyr, ar arbedion o'i raglen drawsnewid (T22), ac

roedd manteision ariannol y rhaglen honno'n dal i gael eu hystyried. Felly, nid oedd cynllun ariannol y Cyngor yn derfynol.

15 Yn 2019-20, gwelsom fod gan y Cyngor ddull cadarn o gynllunio cyllidebau a oedd wedi gwneud buddsoddiadau'n bosibl mewn gwasanaethau plant ac addysg ar gyfer 2020-21, sy'n feysydd allweddol. Nodwyd hefyd bod gan swyddogion gweithredol ac uwch swyddogion y Cyngor gyd-ddealltwriaeth glir o heriau ariannol sylweddol y Cyngor ar y pryd ac i'r dyfodol.


16 Mae gan uwch arweinwyr y cyngor ac uwch swyddogion gyd-ddealltwriaeth glir o hyd o heriau ariannol y Cyngor ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

17 Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig o hyd sydd wedi'i ddatblygu'n dda, ac sy'n rhoi sylw i'r blynyddoedd rhwng 2022 a 2026. Mae'n nodi bwlch cyllid rhagamcanol o £17 miliwn gyfer y pedair blynedd rhwng 2022-23 a 2025-26 o £14 miliwn.

18 Dengys Arddangosyn 3 fwlch ariannu'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf. Wrth bennu cyllideb gytbwys yn 2021-22, cymeradwyodd y Cyngor fesurau arbedion (ac eithrio ysgolion) o £2.6 miliwn.

**Ffigur 3: bwlch ariannu rhagamcanol y Cyngor ar gyfer y tair blynedd 2021-22 i 2023-24**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch cyllid y mae'r Cyngor wedi'i nodi ar gyfer y tair blynedd ganlynol[4].




[4] Ffynonellau:

2021-22 – Cabinet, 12 Ionawr 2021, Monitro Ariannol 2020/21, Cyllideb Refeniw 2021/22

2022-23 a 2023-24 – Cyngor Llawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, 4 Mawrth 2021, Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2022-2026

19 Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi’n glir y prif risgiau mewnol ac allanol i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor.

20 Mae’r Cyngor yn ymwybodol o’r pwysau sylweddol allweddol ar ei gyllidebau ar hyn o bryd, sef chwyddiant cyflogau, gofal cymdeithasol i blant, lleoliadau yn arbennig, yn ogystal ag addysg a chymdogaethau.

21 Roedd cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021-22 yn darparu cyllid refeniw ychwanegol i’r meysydd hynny sy’n wynebu pwysau cyllidebol ar hyn o bryd.

22 Mae’r elfennau allweddol o’r ffordd y mae’r Cyngor yn mynd ati i bontio’r bwlch cyllid a amcangyfrifwyd yn cynnwys cyflawni ei raglen drawsnewid T22 yn effeithiol, rheoli cyllidebau blynyddol yn effeithiol, a sicrhau arbedion a gynlluniwyd yn effeithiol.

23 Canfu ein hadolygiad fod swyddogion ac aelodau’n deall yr angen i adolygu’n rheolaidd y ffordd y mae’r Cyngor yn mynd ati i liniaru effaith ariannol y pandemig, wrth i hynny ddod i’r amlwg yn ystod 2021-22 a thu hwnt o bosibl.

24 Er mwyn rhoi gwybodaeth ar gyfer cynllunio ariannol a nodi eu bylchau cyllid rhagamcanol, mae pob cyngor yn gwneud rhagdybiaethau am ffactorau a fydd yn effeithio ar faint o arian fydd ar gael iddynt yn y dyfodol. Mae rhagdybiaethau’r Cyngor yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn gynhwysfawr ac yn rhoi rhagolwg cytbwys adeg cyhoeddi'r Cynllun, o’i gymharu â’r rhagdybiaethau a wnaed gan bob cyngor ledled Cymru.

## Er bod lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu yn 2020-21, mae’n cydnabod pwysigrwydd defnyddio cronfeydd wrth gefn yn strategol er mwyn bod mewn sefyllfa fwy cadarn yn ariannol yn y tymor canolig

### Pam mae’n bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

25 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau ariannol annisgwyl, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy hefyd fod yn ffynhonnell bwysig o gyllid i gefnogi cynlluniau 'buddsoddi i arbed', sy’n ceisio lleihau'r gost barhaus o ddarparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn mewn modd heb ei gynllunio er mwyn llenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n golygu bod llai o arian wrth gefn ar gael, yn lleihau eu gallu i ariannu pwysau cyllidebol annisgwyl yn y dyfodol.

### Canfuwyd

26 Yn ein hadroddiad Cynaliadwyedd Ariannol ar gyfer 2019-20, gwelsom fod lefelau isel hanesyddol y Cyngor o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi bod yn lleihau’n raddol dros y blynyddoedd blaenorol ac, er bod disgwyl iddynt leihau ymhellach erbyn 2020-21, nad oedd hynny’n gynaliadwy.

27 Fel y dangosir yn **Ffigur 4**, roedd lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor ar ddiwedd 2019-20 wedi gostwng i £16.7 miliwn o £18.7 miliwn ar ddiwedd 2018-19.

28 Ar ddiwedd 2020-21, roedd lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu £8.7 miliwn, gyda £6 miliwn ohono o ganlyniad i gynnydd mewn balansau ysgolion. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu cronfa benodol o £1.2 miliwn i gefnogi ei gynlluniau adfer ar ôl COVID.

29 Mae cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021-22 yn cynnwys gwneud defnydd penodol o'r cronfeydd wrth gefn (£0.49 miliwn) i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant, er mwyn helpu i fynd i'r afael yn strategol ac yn gynaliadwy â'r pwysau ariannol mae'n ei wynebu yn y maes hwn.

30 Mae'r Cyngor yn dal i gydnabod, gyda lefelau isel hanesyddol o gronfeydd wrth gefn, bod angen rheolaeth ariannol effeithiol i sicrhau nad yw cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio mewn modd heb ei gynllunio nac i ategu cyllidebau refeniw.

31 Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod angen iddo wneud yn siŵr, wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn mewn modd wedi'i gynllunio, ei fod yn sicrhau'r canlyniadau a fwriedir drwy ddefnyddio cyllid untro yn y ffordd strategol honno.

**Ffigur 4: cymharu lefel y cronfeydd wrth gefn â'r gwariant blynyddol**

Mae'r ffigur hwn yn dangos faint o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.


| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [5] | 174.4 | 173.3 | 181.1 | 186.6 | 186.0 |
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [6] | 17.4 | 18.2 | 18.7 | 16.7 | 25.4 |
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau | 10 | 10.5 | 10.3 | 9.0 | 13.7 |
| Cymharu â'r cynghorau eraill yng Nghymru | 20-22 | 19-22 | 16-22 | 20-22 | Ddim ar gael eto |

[5] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon Cost Net Gwasanaethau (ac eithrio ffigurau cyfrif refeniw tai) yn ogystal â phraeseptau, ardollau a llog ar ddyledion

[6] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

**Ffigur 5: y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau**

Mae’r graff hwn yn dangos cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’r Cyngor fel canran o gostau net gwasanaethau, wrth gymharu â’r Cynghorau eraill yng Nghymru.




| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Uchaf y flwyddyn | 34.4% | 33.6% | 33.6% | 33.4% |
| Torfaen | 10.0% | 10.5% | 10.3% | 9.0% |
| Isaf y flwyddyn | 8.8% | 7.2% | 6.1% | 4.2% |

## Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn dal i berfformio’n gryf yn erbyn y gyllideb, ac mae’n cyflwyno rhaglen sydd wedi’i chynllunio i fynd i’r afael â’r pwysau ar ei gyllideb gwasanaethau plant

### Pam mae’n bwysig rhagweld gwariant yn gywir

32 Mae'n bwysig bod gorwario a thanwario yn cael eu cadw o dan reolaeth, a bod y gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor nad yw'n gallu rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn wynebu'r risg o greu pwysau ariannol annisgwyl a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb gytbwys. Gallai patrymau sylweddol o danwario leihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Canfuwyd

33 Yn ein hadroddiad Cynaliadwyedd Ariannol ar gyfer 2019-20, gwelsom fod gorwario mewn rhai meysydd gwasanaeth (Gwasanaethau Plant a Chymdogaethau) yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei wrthbwyso gan danwariant mewn meysydd eraill, defnydd o gronfeydd wrth gefn, ac arian annisgwyl untro’n unig.

34 Yn **Ffigur** 2 roeddem wedi nodi'r cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru drwy ei chronfa caledi i dalu am y costau ychwanegol y mae cynghorau wedi'u hwynebu a'r incwm maen nhw wedi'i golli oherwydd pandemig COVID yn ystod 2020-21. Cafodd y Cyngor gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru y tu hwnt i'r gronfa caledi[7]. Er enghraifft, cyllid ar gyfer arbedion na lwyddwyd i'w sicrhau (£756,000), newidiadau i dechnoleg (£756,000) a chostau gweinyddu cynlluniau grantiau busnes COVID ar gyfer Llywodraeth Cymru (£309,000).

35 O ganlyniad i'r pandemig, yn 2020-21 mae'r gwariant gwirioneddol yn erbyn cyllidebau wedi lleihau'n sylweddol mewn nifer o feysydd – er enghraifft, trefniadau teithio staff, cludiant i'r ysgol a chyflenwadau – ac roedd y Cyngor yn bwriadu hysbysebu swyddi gwag pryd bynnag y byddai modd. Yn gyffredinol, nododd y Cyngor danwariant o £6.4 miliwn yn erbyn ei gyllideb ar ddiwedd 2020-21, fel y dangosir yn **Ffigur 6** isod.

36 Yn 2019-20, gwelodd y Cyngor orwariant o £2.8 miliwn ar y gyllideb lleoliadau plant, ac yn 2020-21 cafodd £1.53 miliwn ei orwario ar y gyllideb honno yn erbyn y gyllideb uwch ar gyfer 2020-21.

37 Mewn ymateb i'r pwysau parhaus ar y gyllideb ym maes gofal cymdeithasol i blant, dechreuodd y Cyngor ar raglen trawsnewid gwasanaethau Plant ym mis Ebrill 2019. Mae'r rhaglen honno'n cynnwys nod i leihau'n strategol y pwysau ar y gyllideb yn y maes hwn, drwy gyfuniad o gamau gweithredu a thros nifer o flynyddoedd.

**Ffigur 6: cymharu lefel y gorwario/tanwario â chyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r ffigur canlynol yn dangos faint o orwario neu danwario a fu ar gyllideb refeniw net gyffredinol y Cyngor ar gyfer y pedair blynedd diwethaf, a hefyd yr alldro dros dro cyn archwiliad allanol fel yr adroddwyd i'r Cabinet ym mis Mai 2021.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21[8] |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb refeniw net wreiddiol £ miliynau [9] | 166.8 | 168.2 | 173.0 | 177.0 | 186.9 |
| Alldro refeniw net gwirioneddol £ miliynau [10] | 165.8 | 168.2 | 170.8 | 176.9 | 180.6 |
| Swm y gwarged/gorwariant cyffredinol £ miliynau | 1.0 | 0.0 | 2.2 | 0.1 | 6.3 |
| Canran y gwahaniaeth o'r gyllideb refeniw net | 0.6 | 0.0 | 1.3 | 0.0 | 3.4 |

[7] Ffynhonnell: Adroddiad y Cabinet ynghylch Canlyniadau Ariannol 2020/21, 25 Mai 2021

[8] Ffynhonnell: Adroddiad y Cabinet ynghylch Canlyniadau Ariannol 2020/21, 25 Mai 2021

[9] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

[10] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

## I sicrhau y bydd yn dal mewn sefyllfa gadarn yn ariannol dros y tymor canolig, dylai'r Cyngor ystyried sut gall arbedion gyfrannu'n strategol at leihau ei fwlch cyllid a amcangyfrifwyd

### Pam mae'r gallu i nodi a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

38 Mae'r gallu i nodi meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn elfen allweddol o'r broses o sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefndir o bwysau ariannol cynyddol. Pan nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni, gall hyn arwain at orwariant sy'n golygu gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig, gan gynyddu lefel yr arbedion sydd eu hangen yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Pan nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni, ac mae angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg o arbedion nad ydynt yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor, neu atebion 'tymor byr' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Canfuwyd

39 Yn ein hadroddiad Cynaliadwyedd Ariannol ar gyfer 2019-20 gwelsom fod y Cyngor, dros y tair blynedd flaenorol, wedi sicrhau bron i 80% o'i arbedion a oedd wedi'u cynllunio. Ond, bu'n rhaid iddo wneud arbedion eraill i wneud iawn am y diffyg o £3 miliwn.

40 At ei gilydd, roedd y Cyngor wedi sicrhau 72% o'r £1 miliwn o arbedion yr oedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2020-21 (**Ffigur 7**). Roedd effaith pandemig COVID-19 wedi cyfyngu ar y gallu i sicrhau rhai o'r arbedion a oedd wedi'u cynllunio.

41 Mae swyddogion y cyngor yn cydnabod pwysigrwydd allweddol sicrhau arbedion a gynlluniwyd sy'n cael eu datblygu'n flynyddol ac wedyn yn cael eu profi'n drylwyr cyn eu cynnig i'r aelodau i graffu arnynt.

42 Mae arbedion a gynlluniwyd y Cyngor ar gyfer 2021-22 yn dod i £2.6 miliwn. Ond, dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym nad yw'r rhan fwyaf o'r arbedion hynny'n lleihau gwasanaethau nac yn effeithio'n uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau, ac felly maent yn arbedion risg isel o ran y ddarpariaeth.

43 Yn ystod 2021-22, mae'r Cyngor wedi nodi oddeutu £1 miliwn o arbedion ym maes gofal cymdeithasol i blant drwy leihau'r twf yn y maes gwasanaeth yma. Mae'r arbedion yn seiliedig ar weithredu'n llwyddiannus y gweithgarwch a gynlluniwyd o dan raglen drawsnewid y Cyngor ar gyfer gwasanaethau plant, gan gynnwys lleihau'r lleoliadau preswyl y tu allan i'r sir mewn ffordd ddiogel. Mae swyddogion y Cyngor yn ffyddiog y bydd yr arbedion hynny'n cael eu cyflawni.

44 Er ein bod yn cydnabod bod y Cyngor yn datblygu arbedion ar sail flynyddol oherwydd setliadau cyllideb blynyddol Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r bwlch cyllid a ganfuwyd, efallai y bydd y Cyngor yn awr yn dymuno ystyried datblygu dull

gweithredu tymor canolig ar gyfer arbedion fel rhan o'i waith i gau'r bwlch cyllid mewn ffordd strategol.

**Ffigur 7: arbedion sydd wedi cael eu sicrhau fel canran o'r arbedion a gynlluniwyd**

Mae'r ffigur canlynol yn dangos faint o arian roedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed ar sail ei gynlluniau arbedion rhwng 2017-18 a 2020-21.

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 [11] |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion a gynlluniwyd mewn £ miliynau [12] | 4.3 | 5.7 | 3.5 | 1.0 |
| Yr arbedion a gynlluniwyd y llwyddwyd i'w sicrhau, mewn £ miliynau [13] | 3.3 | 4.5 | 2.8 | 0.7 |
| Yr arbedion a gynlluniwyd na lwyddwyd i'w sicrhau, mewn £ miliynau | 1.0 | 1.2 | 0.7 | 0.3 |
| Canran yr arbedion y llwyddwyd i'w sicrhau | 77% | 79% | 81% | 72% |

## Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor wedi parhau'n gryf ar y cyfan dros y pum mlynedd diwethaf

### Pam mae'n bwysig cymharu asedau cyfredol â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- dangosydd o sut mae cyngor yn rheoli ei gyllid tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml i archwilio a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gael benthyciadau tymor byr. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd o sut mae cyngor yn rheoli ei gyllid tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau yn eu lle i gyflawni eu rhwymedigaethau.
- efallai y bydd costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau tymor byr i dalu dyledion.

[11] Ffynhonnell: Adroddiad y Cabinet ynghylch Canlyniadau Ariannol 2020/21, 25 Mai 2021

[12] Ffynhonnell: Adroddiadau Cyllideb y Cyngor

[13] Ffynhonnell: Adroddiadau Alldro

- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## Canfuwyd

45 Ar ddiwedd 2019-20, roedd gan y Cyngor gymhareb hylifedd o 1.2, sydd wedi gostwng o 1.4 yn 2015-16. Mae’r dadansoddiad o’r tueddiadau yn **Ffigur 8** isod yn dangos bod y gymhareb bob amser wedi bod yn fwy nag 1.

46 Mae’r Cyngor yn adolygu ei strategaeth rheoli trysorlys yn rheolaidd, ac mae swyddogion yn adolygu'r sefyllfa hylifedd yn ddyddiol. Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyngor hefyd yn derbyn adroddiadau monitro'n rheolaidd ynghylch rheoli’r trysorlys.

47 Yn ei adroddiad diweddaraf i’r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2021[14], amcangyfrifodd y Cyngor fod y lefelau benthyca ar tua 90% o’i derfynau cymeradwy.

48 Nid yw’r Cyngor o'r farn bod ei gymhareb hylifedd yn risg sylweddol, ac nid yw wedi profi unrhyw broblemau hylifedd. Mae ei lefelau benthyca yn is na lefel ei ofyniad cyllid cyfalaf ac o fewn ei derfynau benthyca darbodus.

**Ffigur 8: cymhareb cyfalaf gweithred rhwng 2015-16 a 2020-21 Ffynhonnell: Datganiad o gyfrifon**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 (drafft [15]) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [16] | 37.9 | 50.2 | 46.7 | 42.7 | 55.2 | 48.3 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [17] | 27.4 | 41 | 42.7 | 28.4 | 46.6 | 29.8 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithred | 1.4 | 1.2 | 1.1 | 1.5 | 1.2 | 1.6 |

[14] Strategaeth Rheoli’r Trysorlys 2021/22 – 2025/26, Y Pwyllgor Archwilio, 20 Ionawr 2021

[15] Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon 2020-21 heb ei archwilio.

[16] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Tymor Byr; Asedau i'w gwerthu; Stocrestrau; Dyledwyr Tymor Byr; ac Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod.

[17] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys Benthyca Tymor Byr; Credydwyr Tymor Byr; a Darpariaethau sy'n ddyledus mewn blwyddyn.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru
Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.